**Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth MID 01-02(p2)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener 8 Mawrth 2002 |
| **Amser:** | 10.30am hyd 1.00pm |
| **Lleoliad:** | Canolfan Cymuned Tref-y-Clawdd, Tref-y-Clawdd |

**Cyngor Chwaraeon Cymru**

**The Sports Council for Wales**

## CYFLEUSTERAU CHWARAEON YM MHOWYS

## CYFLWYNIAD

Mae’r papur hwn yn amlinellu cyflwyniad gan Gyngor Chwaraeon Cymru (CChC) ar gyfer ymchwiliad Pwyllgor Rhanbarthol Canolbarth Cymru y Cynulliad i ‘Gyfleusterau Chwaraeon ym Mhowys’. Mae’n ystyried y sefyllfa bresennol parthed darparu cyfleusterau a chymryd rhan mewn chwaraeon. Rhoddir sylw hefyd i drafod materion sy’n effeithio ar gysylltiad pobl ieuainc a^ chwaraeon.

## CYFLEUSTERAU CHWARAEON YM MHOWYS

Mae gan CChC gronfa ddata gynhwysfawr o adeiladau adeiledig pwysig yng Nghymru a chronfa ddata o gyfleusterau naturiol. Er mwyn cael gwybod am alw neu gyflenwad gormodol mewn perthynas a^ chyfleusterau, datblygwyd Model Cynllunio Cyfleusterau (gan **sport**scotland mewn cydweithrediad a^ Phrifysgol Caeredin). Mae hwn yn arenwi ardaloedd i dderbyn blaenoriaeth am fuddsoddiadau ledled Cymru.

Cyfleusterau Adeiledig

Ceir rhestr o gyfleusterau yn Atodiad 1. Ceir manylion ynghylch canlyniadau’r troeon diwethaf y gweithredwyd y Model Cynllunio Cyfleusterau isod.

| Math o Gyfleuster | Safle o ran y Galw Heb ei Fodloni yn o^l Awdurdod Lleol | Canran y Galw Heb ei Fodloni gan Gyfleusterau Presennol |
|---|---|---|
| Neuaddau Chwaraeon | 13 | 43.6% |
| Pyllau Nofio | 6 | 21.3% |
| Cyrsiau Golff | 13 | 9.4% |
| Cyrtiau Sboncen | 7 | 14.0% |
| Rinciau Bowlio Dan Do | 22 | 31.1% |
| Traciau Athletau Synthetig | 7 | 42.6% |
| Caeau Tyweirch Artiffisial | 2 | 41.0% |

Gan fod Powys yn awdurdod mawr, gwledig, mae'n debygol bod cyfran sylweddol o'r galw heb ei fodloni yn cynnwys pocedi bychain mewn cymunedau gwasgarog lle byddai'n afrealistig darparu cyfleusterau mawr newydd.

Mae llawer o gyfleusterau Powys yn rhai cymharol ddiweddar. Ers dechrau 1990, mae pum canolfan chwaraeon/hamdden wedi agor yn ardal yr awdurdod (tair gyda rinciau bowlio dan do), ac un ganolfan fowlio dan do ychwanegol, dwy neuadd chwaraeon, un trac athletau synthetig a thri chwrs golff. Mae Powys yn debygol o gael llai o broblemau wrth newid neu adnewyddu cyfleusterau sy'n tynnu at ddiwedd eu hoes ddefnyddiol o'i gymharu ag awdurdodau eraill.

<u>Cyfleusterau Naturiol</u>

Mae Powys yn ardal bwysig yng Nghymru o safbwynt darparu cyfleusterau naturiol ar gyfer chwaraeon. Mae CChC yn cadw cronfa ddata sy'n cynnwys rhyw 2,400 o gyfleusterau – mae mwy na 12% o'r rhain ym Mhowys. Mae gan Bowys nifer arbennig o uchel o gyfleusterau ar gyfer marchogaeth, beicio modur oddi ar y ffordd, cerdded mynyddoedd, croghedfan/ paragleidio, rasio ar fynyddoedd, crwydro ogofa^u, pysgota ge^m a bras bysgota.

**CYFRANOGIAD CHWARAEON YM MHOWYS**

<u>Oedolion</u>

Mae cyfraddau cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol oedolion Powys yn llawer uwch na chyfartaledd Cymru (63% o'i gymharu a^ 55%), er bod amledd y cymryd rhan yn is. Rhoddir hwb sylweddol i'r cyfraddau cymryd rhan gan lefelau uchel y cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored, er bod y ffigyrau ar gyfer y grw^p oedran 15-24 oed yn parhau'n uchel hyd yn oed pan eithrir y ffigyrau olaf hyn.

Mae canran yr oedolion sy'n aelodau o glybiau chwaraeon yn uwch na chyfartaledd Cymru (19% o'i gymharu a^ 16%). Yn fwy na hynny, mae'r gwirfoddoli mewn clybiau ac ysgolion yn sylweddol uwch (6.2% o'i gymharu a^ 3.8%) ar gyfer yr holl grwpiau ond yn arbennig felly yn y grw^p oedran 15-24 oed (8.1% o'i gymharu a^ 3.8%).

<u>Plant a Phobl Ieuainc</u>

Mae amrediad y gweithgareddau AG cwricwlaidd y cymerir rhan ynddynt gan ddisgyblion yn dangos gwrthgyferbyniad, gyda ffigwr is na'r cyfartaledd ar gyfer plant 7-11 oed ond y ffigwr uchaf o blith yr awdurdodau i gyd ar gyfer disgyblion 11 - 16 oed.

Mae'r cyfranogiad allgyrsiol ychydig yn is na chyfartaledd Cymru ar gyfer y rhai 7-11 oed ac yn uwch nag o ar gyfer disgyblion 11-16 oed. Er hynny, mae hyn yn cuddio'r lefelau arbennig o isel o gyfranogiad allgyrsiol ymhlith genethod yn y grw^p oedran 7-11 oed.

Nid yw tueddiadau cymryd rhan mewn clybiau Powys yn gwahaniaethu rhyw lawer oddi wrth rai Cymru, ond gan wrthgyferbynu a^ chwaraeon allgyrsiol, mae cyfran sylweddol uwch o enethod yn y grw^p oedran 7-11 oed yn cymryd rhan mewn gweithgareddau clwb. Mae canran y plant sy'n defnyddio eu canolfan hamdden leol yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer plant 7-11 oed (90% o'i gymharu a^ 85%) a disgyblion 11-16 oed (86% o'i gymharu a^ 81%).

**SICRHAU CYNNYDD YM MHOWYS**

Mae sicrhau cyfraddau cymryd rhan uwch yng Nghymru, yn arbennig ymhlith merched a genethod, yn flaenoriaeth uchel i'r Cynulliad. Ers blynyddoedd lawer mae CChC wedi cydweithio'n agos gyda Chyngor Sir Powys (a'r awdurdodau a'i rhagflaenodd) i sicrhau cynnydd yn y cymunedau amrywiol yn yr ardal. Ymhlith y mentrau a ddefnyddiwyd i'r diben hwn mae:

- cydariannu swyddi swyddogion datblygu chwaraeon;

- penodi Swyddog Campau'r Ddraig i greu cyfleoedd allgyrsiol ar gyfer plant ysgolion cynradd, yn arbennig genethod;

- penodi swyddog chwaraeon anabledd rhan-amser;

- menter 'Genethod yn Gyntaf' i sicrhau mwy o gyfleoedd i enethod mewn ysgolion uwchradd;

- darparu grantiau cyfalaf SPORTLOT a'r Trysorlys ar gyfer datblygu neu adnewyddu cyfleusterau;

- darparu Grantiau Ma^n Offer SPORTLOT i brynu eitemau newydd neu ychwanegol o offer chwaraeon rhwng £750 a £5,00;

- Dyfarniadau Cist Gymunedol SPORTLOT sy'n darparu hyd at £750 o gefnogaeth refeniw ar gyfer clybiau

chwaraeon gwirfoddol. Gwneir penderfyniadau gan bwyllgor lleol ym Mhowys gyda chefnogaeth weinyddol gan yr awdurdod lleol.

**CASGLIAD A MATERION I’W HYSTYRIED**

Mae gan Bowys ddarpariaeth resymol o gyfleusterau mawr ledled y rhanbarth sy’n gymharol newydd ac mewn cyflwr da. Er hynny, mewn cymuned wledig fe fydd llawer o broblemau gyda materion cludiant. Mae hwn yn fater i’w ystyried cyn belled ag y mae cynyddu gweithgarwch allgyrsiol plant a’u haelodaeth o glybiau yn y cwestiwn.

Hefyd, mae’r cyfle i gymryd rhan yn nes adref yn bwysig. Gall mannau aml-gemau ar safleoedd ysgolion cynradd wneud gwahaniaeth mawr i’r ysgol a’r gymuned.

Mae sicrhau bod nifer uchel o aelodau o glybiau a gwirfoddoli helaeth yn esgor ar hyfforddwyr, gwirfoddolwyr a gweinyddwyr cymwys a sgiliedig yn her fawr.

F16/3/2a

HGJ/as

8 Mawrth 2002